The Fun Club at Ysgol Maes y Felin
Charity Number 1201378

Hygiene & Health Care Policy

Hygiene

All staff and volunteers are made aware of good hygiene practice during their induction period.

- Staff will encourage children to maintain their own personal hygiene including the washing of hands after using the toilet and before eating/handling food and after certain activities e.g. painting, handling pets, and gardening.
- Toilets will always have running water, soap and clean towels available.
- Tissues are used and disposed of hygienically and hands washed.
- Disposable gloves are available for clearing up after spills of bodily fluids. These spills will be cleaned immediately using disposable towels and a cleaning product that combines a detergent and disinfectant.
- The premises (toilets, tables and equipment) are checked regularly throughout the session and cleaned on a daily basis. Frequent hand contact sites such as toilet flush handles, taps, door handles etc. are cleaned and disinfected regularly.
- Other equipment, such as toys, are cleaned routinely and according to need.
- Staff who are responsible for food preparation and handling are fully aware of and comply with regulations relating to food safety and hygiene and will have completed a recognised food hygiene qualification. This will be kept updated.
- Kitchen surfaces, chopping boards and utensils are cleaned before and after use.
- Disinfectants are used on food contact surfaces.
- Kitchen cloths are washed and disinfected regularly and left to dry before using them again. Disposable kitchen towels are used for wiping worktops and chopping boards.
- Fridge and freezer temperatures are checked and recorded daily.
- All waste is disposed of regularly and appropriately.

Further information/guidance (hygiene):

- Guidance on infection control in schools and other Childcare settings, Health Protection Agency, April 2017 http://www.publichealth.hscni.net/publications/guidance-infection-control-schools-and-other-childcare-settings-0
- Health and Safety Executive, http://www.hse.gov.uk/
- Food and Health Guidelines for Early Years and Childcare Settings, Welsh Government, 2018. https://beta.gov.wales/food-and-nutrition-childcare-settings-food-hygiene-and-safety

Health Care

- Children are encouraged to make use of outdoor space/activities available.
- Physical play equipment/opportunities to encourage physical activity are provided.
- Activities to increase children's awareness of health and hygiene issues are introduced.
- The Club has separate healthy eating and sun awareness policies.

Parents/carers must inform the Club about any medical conditions, allergies, special dietary and health care needs their child/ren might have on the child registration form.

Parents/carers are required to give written permission to the Club in advance for any necessary emergency medical advice or treatment. This permission is given as a part of the parent's/carer's contract which is signed when a child first registers with the Club.

First Aid

- The Club has a First Aid box, which complies with health and safety (First Aid) regulations.
- It is accessible to staff, but out of the reach of children.
- A First Aid kit will also be available for use during outings.
- Staff are trained in First Aid in accordance with the National Minimum Standards for Regulated Child Care and other relevant regulations. All First Aid qualifications should be kept up to date and renewed every 3 years.

- It is the responsibility of Debbie Hillier, the nominated qualified First Aider within the Club, to maintain the contents of the First Aid box for use. This includes checking that items are not out of date, packaging of sterile items is intact and replacing any items that are used or found to be unusable.

Children who are ill

- Please do not send your child to the Club if you are aware that he or she is unwell. If your child will not be attending due to illness, you must inform the Club as soon as possible in line with the Club's arrival and collection policy.
- No child or member of staff known to be suffering a communicable disease, or considered too ill to participate in normal Club activities, shall be admitted to the Club.
- If a child becomes unwell during their time at the Club, we will notify the parent/emergency contact and ensure the child is made comfortable in a quiet area. The child will be supervised at all times and observed for any worsening symptoms.
- Reasonable steps will be taken to avoid cross-infection should the child develop symptoms of any infectious illness.
- If a child's condition worsens to such an extent that Club staff are seriously concerned, and suspect urgent medical treatment is required, the parent/carer will be notified immediately and if necessary an ambulance will be called to take the child for treatment.
- If the parent/carer has not arrived by the time the ambulance needs to leave, the child will be accompanied to the hospital by a member of staff. That member of staff shall take with them to the hospital the child's registration form and signed contract indicating consent for emergency medical treatment to ensure the hospital has all the necessary information.
- Reporting in accordance with RIDDOR (F2508) will be undertaken when necessary in accordance with the health and safety legislation (Contact Health and Safety Executive or visit www.hse.gov.uk).
- Care Inspectorate Wales will be informed as soon as possible of any infectious illness, serious injury, illness or death of anyone on the premises.
- The Club's insurance company will also be notified.

Infectious Illnesses

- If any parent has concerns about infectious diseases or exclusion periods, they should contact the Senior Playworker in the first instance.
- If the Club becomes aware that any child has developed or been exposed to a communicable disease whilst at the Club, we will inform parents/carers as soon as reasonably practicable, whilst maintaining confidentiality.
- We ask that parents/carers notify the Club as soon as possible if their child develops or is exposed to an infectious illness, so that the appropriate steps can be taken to notify other Club users if necessary. This will be important particularly for children with low immunity who need to be informed promptly.
- Equipment will be cleaned and disinfected during an outbreak of illness
- The Club will liaise with relevant schools regarding exclusion periods for infectious illnesses and medical advice and procedures will be referred to.
- The following exclusion periods apply should a child have any of the following illnesses. It includes some common examples of illnesses but please note that this list is not exhaustive and will be reviewed regularly because advice changes. Further advice may also be sought from a healthcare professional.

The Fun Club at Ysgol Maes y Felin
Charity Number 1201378

Disease	Signs and Symptoms	Incubation period	Exclusion period (consider as a minimum)
Chickenpox	Low-grade fever, rash usually appears within 24-48 hours, in the mouth to begin with, then red spots with white raised centre on trunk and limbs – very irritating rash	7-21 days	7 days from onset of rash (all spots must be dry and scabbed over)
Cold Sores	Redness blisters or scabs on or around the lips.	Direct contact	Avoid contact with the sore until it has disappeared.
Conjunctivitis	Itching and pain in eyes which become red and inflamed. White discharge or "sticky eye"	Bacterial 1-3 days; viral 2-7 days	24 hours minimum or until improvement begins with medication from GP
Gastrointestinal infection	Vomiting, diarrhoea, dehydration, abdominal pain. In usual circumstances diarrhoea in a child constitutes 3 or more loose stools	7-14 days	Until well. 48 hours after diarrhoea and vomiting have stopped
Hand, Foot and Mouth disease	High temperature, sore throat, red spots with raised blister head on hands, feet and mouth	3-5 days	Until lesions are healed
Herpes simplex	Blisters inside cheeks, ulcers on the tongue, cold sores around the mouth	2-10 days	Until all symptoms have ceased
Impetigo	Yellow oozing sores with scabs on top, itching. Usually around nose and mouth, although can develop on body	Direct contact	Until dry and healing, or 48 hours after antibiotic treatment has started
Infective hepatitis (jaundice)	Gradual onset of headache, loss of appetite, nausea, urine dark, faeces pale putty colour	23-35 days	7 days from onset of jaundice
Influenza and Pandemic Flu	Sudden onset, fever, headache, pain in the neck, arms or legs.	2-3 days	Until recovered
Measles	Misery, high temperature. Heavy cold, with discharging nose and eyes. Later – harsh cough, conjunctivitis, white spots in cheek, followed by dusky red patchy rash, starting behind the ears and along ears/hairline – spreads to face, trunk and limbs	10-15 days	4 days from onset of rash
Meningitis (bacterial and viral)	Fever, pains in back of joints, vomiting. Headache, fear of bright lights, stiff neck, confusion. Skin pale/blotchy, red rash or purple spots/bruises may appear	2-10 days	Until recovered
Mumps	Fever, headache or ear ache, swelling of jaw in front of ears, difficulty opening mouth/chewing	7-28 days	4 days from onset of swelling
Otitis Media (Ear infection)	Severe ear ache, intermittent or continuous. Deafness (occasionally) and discharge from the ear, children may not localise the pain to the ears or head	Direct contact	Until symptoms have cleared up
Pertussis (whooping cough)	Heavy cold with fever, followed by spasmodic cough, characteristic cough and vomiting, breathlessness and exhaustion	7-10 days	21 days from onset of cough. If antibiotics are given this may be shortened
Rubella (German measles)	Slight sore throat, slight fever, enlarged glands behind ears, pain in small joints	14-21 days	4 days from onset of rash

Disease	Signs and Symptoms	Incubation period	Exclusion period (consider as a minimum)
Slapped cheek syndrome/Fifth Disease	Head ache, mild fever, sore throat, rash on cheeks	4-20 days	Once rash appears no longer contagious
Scabies	Itchy mite burrows, visible as red raised spots, especially between the fingers. Intense irritation, sleeplessness	Direct contact	72 hours following treatment
Temperatures	Normal range for child is 36.1-37.2 degrees C. 38.3 degrees C or higher is cause for concern	Not applicable	Until temperature returns to normal
Threadworms	Presence of threadworms in stools (white, cotton-like pieces) sore anus, itchy bottom, sleeplessness, lack of appetite	Direct contact	24 hours following treatment
Thrush	White patches inside mouth, red rash around mouth or in genital area	Direct contact	Mouth – 24 hours after treatment. Genitals – no exclusion necessary although treatment and good hygiene required
Tonsillitis	Very sore throat, white patches on tonsils, swollen glands in neck, aches and pains in back and limbs	2-5 days	Until recovered or at least 48 hours on antibiotics
Urinary Tract infections	General illness, abdominal pain, vomiting, high temperature, need to pass urine more often than usual	Not applicable	Until symptoms have cleared up

Further information/guidance:

- **Guidance on infection control in schools and other Childcare settings, http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/All%20Wales%20Infection%20Prevention%20and%20Control%20Guidance%20for%20Educational%20Settings_FINALMay%202017x.pdf**
- https://www.gov.uk/government/publications/health-protection-in-schools-and-other-childcare-facilities **(updated March 2019)**
- Health and Safety Executive, http://www.hse.gov.uk/
- Food and Health Guidelines for Early Years and Childcare Settings, Welsh Government, 2018. https://beta.gov.wales/food-and-nutrition-childcare-settings-food-hygiene-and-safety

The Fun Club at Ysgol Maes y Felin
Charity Number 1201378

Polisi Hylendid a Gofal Iechyd

Hylendid

Gwneir pob aelod o'r staff a phob gwirfoddolwr yn ymwybodol o arferion hylendid da yn ystod eu cyfnod sefydlu.

- Bydd staff yn annog plant i gadw'u safonau hylendid personol eu hunain, gan gynnwys golchi'u dwylo wedi defnyddio'r toiled, cyn bwyta/trafod bwyd, ac ar ôl gweithgareddau arbennig e.e. paentio, trin anifeiliaid anwes, garddio.
- Bydd dŵr rhedegog ar gael o hyd yn y toiledau, a bydd sebon a thywelion glân ar gael.
- Defnyddir, a cheir gwared ar bapur sychu meinwe mewn ffordd lân, a golchir dwylo.
- Mae menig y gellir eu gwaredu ar gael er mwyn clirio wedi arllwys hylifau o'r corff. Glanheir yr arllwysiadau hyn yn syth gan ddefnyddio tywelion y gellir eu gwaredu, a chynnyrch glanhau sydd yn lanedydd ac yn ddiheintydd.
- Gwirir yr adeiladau (y toiledau, byrddau a chyfarpar) yn rheolaidd drwy gydol y sesiwn, ac fe'u glanheir yn ddyddiol. Glanheir, a diheintir, mannau a gyffyrddir â llaw, megis dolenni'r toiled, tapiau, dolenni drysau, a.y.b.
- Glanheir cyfarpar megis teganau yn rheolaidd, ac yn ôl yr angen.
- Mae'r staff sy'n gyfrifol am baratoi bwyd, a'i drafod yn gwbl ymwybodol o'r rheoliadau perthynol i ddiogelwch a hylendid bwyd, a byddant wedi cwblhau cymhwyster cydnabyddedig mewn hylendid bwyd. Cedwir y rhain yn gyfamserol.
- Glanheir arwynebeddau'r gegin, byrddau torri a theclynnau cyn ac ar ôl eu defnyddio.
- Defnyddir deunyddiau diheintio ar arwynebeddau sydd mewn cyffyrddiad â bwyd.
- Golchir a diheintir llieiniau cegin yn rheolaidd, ac fe'u diheintir cyn eu hailddefnyddio. Defnyddir tywelion cegin y gellir eu gwaredu i sychu byrddau gwaith a byrddau torri.
- Gwirir, a chofnodir, tymheredd yr oergell a'r rhewgell yn ddyddiol.
- Ceir gwared â phob gwastraff yn rheolaidd ac mewn ffordd briodol.

Gwybodaeth bellach/arweiniad (hylendid):

- Arweiniad ar reoli haint mewn ysgolion a lleoliadau Gofal Plant eraill, Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd, Ebrill 2017 http://www.publichealth.hscni.net/publications/guidance-infection-control-schools-and-other-childcare-settings-0
- Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch http://www.hse.gov.uk/
- Canllawiau Bwyd ac Iechyd ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Chlybiau Gofal Plant, Llywodraeth Cymru 2018. https://beta.gov.wales/food-and-nutrition-childcare-settings-food-hygiene-and-safety

Gofal Iechyd

- Anogir plant i ddefnyddio'r lle/gweithgareddau awyr-agored sydd ar gael.
- Darperir cyfarpar/cyfleoedd chwarae corfforol i annog gweithgaredd corfforol.
- Cyflwynir gweithgareddau a fydd yn cynyddu ymwybyddiaeth plant o faterion iechyd a hylendid.
- Mae gan y Clwb bolisïau ar wahân ar fwyta'n iach, ac ymwybyddiaeth o'r haul.

Rhaid i rieni/gofalwyr hysbysu'r Clwb, ar ffurflen gofrestru'r plentyn, o unrhyw gyflyrau meddygol, alegerddau, neu anghenion deietegol a Gofal Plant a allasai fod gan y plentyn/plant.

Mae'n ofynnol i rieni/gofalwyr roi caniatâd ysgrifenedig i'r Clwb ymlaen llaw yn achos unrhyw gyngor neu driniaeth feddygol frys a roddir. Rhoddir y caniatâd hwn fel rhan o'r contract rhwng y rhiant a'r Gofalwr, a lofnodir pan fo'r plentyn yn cofrestru gyda'r Clwb am y tro cyntaf.

Cymorth Cyntaf

- Mae gan y Clwb flwch Cymorth Cyntaf, sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau (Cymorth Cyntaf).
- Y mae'n hygyrch i staff, ond o gyrraedd y plant.
- Hefyd, bydd cit Cymorth Cyntaf ar gael i'w ddefnyddio ar dripiau.
- Hyfforddir staff mewn Cymorth Cyntaf yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir. Adnewyddir cymwysterau Cymorth Cyntaf bob 3 blynedd.

- Cyfrifoldeb [rhowch yr enw], y person Cymorth Cyntaf cymwysedig yn y Clwb, a enwebwyd, yw cadw cynnwys y bocs Cymorth Cyntaf yn barod i'w ddefnyddio. Golyga hyn sicrhau nad yw eitemau heibio'u dyddiad terfyn, sicrhau bod y deunydd lapio am yr eitemau di-haint yn ddi-dor, a chyfnewid unrhyw eitemau wedi eu defnyddio, neu rai na ellir eu defnyddio.

Plant Sâl

- Peidiwch ag anfon eich plentyn i'r Clwb os gwyddoch ei fod ef, neu hi, yn anhwylus. Oni fydd eich plentyn yn bresennol oherwydd salwch, rhaid ichi hysbysu'r Clwb cyn gynted â phosibl yn unol â pholisi cyrraedd a chasglu'r Clwb.
- Ni dderbynnir i'r Clwb unrhyw blentyn, neu aelod o'r staff, y gwyddys ei fod naill ai'n dioddef o anhwylder sy'n lledaenu drwy gysylltiad, neu sy'n rhy sâl i gymryd rhan yng ngweithgareddau arferol y Clwb.
- Os yw plentyn yn dod yn anhwylus yn ystod eu hamser yn y Clwb, byddwn yn hysbysu'r rhiant / person cyswllt brys, ac yn sicrhau y gwneir y plentyn yn gyffyrddus mewn ardal dawel. Goruchwylir y plentyn gydol yr adeg, ac arsylwir arno am symptomau'n gwaethygu.
- Cymerir camau rhesymol i osgoi croes-heintiad petai'r plentyn yn datblygu symptomau o unrhyw salwch heintus.
- Os yw cyflwr plentyn yn gwaethygu i'r fath raddau fel bod staff y Clwb yn pryderu o ddifrif amdano, ac yn tybio y gallai fod galw am driniaeth feddygol frys, hysbysir y rhiant/gofalwr yn syth, ac, os bydd rhaid, gelwir ambiwlans i gludo'r plentyn am driniaeth.
- Os nad yw'r rhiant/gofalwr wedi cyrraedd erbyn yr amser y mae'n rhaid i'r ambiwlans adael, bydd aelod o'r staff yn teithio gyda'r plentyn i'r ysbyty. Bydd yr aelod hwnnw o'r staff yn mynd â ffurflen cofrestru'r plentyn a chontract wedi ei lofnodi, yn nodi cydsyniad â thriniaeth feddygol frys, er mwyn sicrhau bod gan yr ysbyty yr holl wybodaeth angenrheidiol.
- Adroddir yn unol â RIDDOR (F2508) pan fo'n angenrheidiol, yn unol â'r ddeddfwriaeth ar iechyd a diogelwch (Cysylltwch at Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch neu ewch i www.hse.gov.uk).
- Hysbysir Arolygiaeth Gofal Cymru mor fuan â phosibl yn achos unrhyw salwch heintus, anaf difrifol, salwch neu farwolaeth unrhyw un ar y safle.
- Hysbysir cwmni yswiriant y Clwb yn ogystal.

Afiechydon Heintus

- Os oes gan unrhyw riant bryder am glefydau heintus neu gyfnodau allgau, dylent, yn y lle cyntaf, gysylltu â'r Uwch Weithiwr Chwarae.
- Os daw'r Clwb yn ymwybodol fod unrhyw blentyn wedi datblygu, neu wedi bod yn agored i glefyd y gellir ei ledaenu trwy gyswllt, yn ystod eu hamser yn y Clwb, byddwn yn hysbysu rhieni/gofalwyr cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, tra cedwir cyfrinachedd.
- Gofynnwn i rieni/gofalwyr hysbysu'r Clwb cyn gynted â phosibl os yw eu plentyn yn datblygu, neu os yw'n dod yn agored i salwch heintus, fel y gellir cymryd y camau priodol i hysbysu defnyddwyr eraill y Clwb, os bydd rhaid. Bydd hyn yn arbennig o bwysig yn achos plant ag imiwnedd isel, rhai sydd angen eu hysbysu'n brydlon.
- Glanheir a diheintir cyfarpar wrth i salwch ddechrau ymledu.
- Bydd y Clwb yn cyd-gysylltu â'r ysgolion perthnasol parthed cyfnodau allgau yn achos afiechydon heintus, a chyfeirir at gyngor a gweithdrefnau meddygol.
- Bydd y cyfnod allgau canlynol yn gymwys petai gan y plentyn unrhyw rai o'r anhwylderau canlynol. Mae'r rhestr hon yn cynnwys rhai enghreifftiau cyffredin o anhwylderau, ond nodwch nad yw'n derfynol, ac fe'i hadolygir yn rheolaidd o ganlyniad i newidiadau yn y cyngor a roddir. Gellir ceisio cyngor pellach yn ogystal gan berson proffesiynol yn y maes Gofal iechyd.

Clefyd	Arwyddion a Symptomau	Cyfnod deori	Cyfnod Allgáu (dylid ystyried hyd y cyfnod hwn yn lleiafswm)
Y Frech Wen	Twymyn gradd-isel, brech sy'n ymddangos fel arfer o fewn 24-48 awr, yn y geg i ddechrau, yna smotiau coch â chanol gwyn	7-21 diwrnod	7 diwrnod o'r frech yn cychwyn (rhaid i'r holl

Clefyd	Arwyddion a Symptomau	Cyfnod deori	Cyfnod Allgáu (dylid ystyried hyd y cyfnod hwn yn lleiafswm)
	yn codi, ar y bongorff a'r aelodau - brech goslyd iawn.		smotiau fod yn sych â chrach drostynt).
Dolur ceg	Cochni, pothelli neu grach ar, neu o amgylch, y gwefusau.	Cyswllt uniongyrchol	Osgowch gysylltiad â'r dolur hyd nes y bod wedi diflannu.
Llid yr amrant	Cosi a phoen yn y llygaid, sy'n dod yn goch ac yn llidiog. Hylif gwyn yn diferu neu "lygad gludiog"	Bacterol 1-3 diwrnod; firysol 2-7 diwrnod	O leiaf 24 awr neu hyd nes y gwelir gwelliant o ganlyniad i feddyginiaeth gan feddyg teulu
Haint Gastro-berfeddol	Cyfogi. Dolur rhydd, cyfogi, dolur rhydd, dadhydradiad, poen yn yr abdomen. Fel arfer golyga ddolur rhydd mewn plentyn 3 neu fwy o garthion rhydd.	7-14 diwrnod	Tan eu bod yn well. 48 awr wedi i'r dolur rhydd a'r cyfogi dod i ben.
Clefyd y Llaw, Traed a'r Genau	Gwres uchel, dolur gwddf, smotiau coch â phennau pothelli ar ddwylo, traed a cheg.	3-5 niwrnod	Hyd nes i'r anafiadau wella
Herpes simplex	Pothelli y tu mewn i'r bochau, wlserau ar y tafod, dolur annwyd o gwmpas y geg	2-10 niwrnod	Hyd nes bo'r holl symptomau wedi peidio
Crachdardd	Doluriau melyn, â chrach amdanynt, yn dylifo, ac yn cosi. O gwmpas y trwyn a'r geg gan amlaf, er y gallant ddatblygu ar y corff.	Cyswllt uniongyrchol	Hyd nes eu bod yn sych ac yn gwella, neu 48 awr wedi i'r driniaeth wrthfiotig ddechrau
Llid yr afu heintus (clefyd melyn)	Cur pen yn dechrau'n raddol, colli archwaeth, teimlo'n gyfoglyd, wrin tywyll, carthion o liw gwan.	23-35 diwrnod	7 diwrnod o ddechrau'r clwy melyn
Y Ffliw a Ffliw Pandemig	Twymyn, cur pen, poen yn y gwddf, breichiau neu goesau; y cyfan yn dechrau'n sydyn.	2-3 diwrnod	Hyd nes y ceir adferiad.
Y Frech Goch	Diflastod, gwres uchel. Annwyd trwm a'r trwyn a'r llygaid yn diferu. Yna - peswch caled, llid yr amrant, smotiau gwyn yn y bochau, brech ysbeidiol o goch gwan yn dechrau y tu ôl i'r clustiau ac ar hyd y clustiau/godre'r gwallt - yn ymledu i'r wyneb, y bongorff a'r aelodau.	10-15 diwrnod	4 diwrnod o gychwyniad y frech
Llid yr ymennydd (bacterol a firysol)	Twymyn, poenau yng nghefnau'r cymalau, cyfogi. Cur pen, ofn goleuadau llachar, gwddf anodd ei symud, dryswch. Y croen yn wan ei liw/yn flotiau, brech goch neu borffor/gall cleisiau ymddangos.	2-10 niwrnod	Hyd y ceir adferiad
Clwy'r Pennau	Twymyn, cur pen neu gur clust, yr ên chwyddedig y tu blaen i'r clustiau, anhawster i agor y geg/i gnoi	7-28 diwrnod	4 diwrnod o gychwyniad y chwyddo
Otitis Media (haint ar y glust)	Clust poenus iawn, ysbeidiol neu barhaus. Methu â chlywed (ar adegau) a hylif yn diferu o'r glust, gallai plant fethu a lleoli'r boen i'r clustiau na'r pen.	Cyswllt uniongyrchol	Hyd nes bo'r symptomau wedi clirio
Y Pâs	Annwyd trwm â thwymyn, wedi ei ddilyn gan beswch ysbeidiol, y peswch a'r cyfog	7-10 niwrnod	21 diwrnod o gychwyn y pesychiad. Os rhoddir

Clefyd	Arwyddion a Symptomau	Cyfnod deori	Cyfnod Allgáu (dylid ystyried hyd y cyfnod hwn yn lleiafswm)
	sy'n nodweddu'r cyflwr, diffyg anadl a theimlo wedi ymlâdd.		gwrthfiotigau, gallai'r cyfnod fod yn llai.
Rubella (Y Frech Almaenig)	Gwddf braidd yn ddolurus, gradd fechan o'r dwymyn, chwarennau chwyddedig y tu ôl i'r glust, poen mewn cymalau bychain.	14-21 diwrnod	4 diwrnod o gychwyniad y frech
Syndrom *Slapped Cheek /Fifth Disease*	Cur pen, twymyn ysgafn, dolur gwddw, brech ar y bochau.	4-20 niwrnod	Unwaith na fydd y frech, yn ôl pob golwg, yn heintus mwyach
Clefyd crafu	Crychau gwyddon coslyd, i'w gweld yn smotiau coch, yn enwedig rhwng y bysedd. Cosi dwys, diffyg cwsg	Cyswllt uniongyrchol	72 awr yn dilyn y driniaeth
Gwres	Yr ystod arferol i blentyn yw 36.1-37.2 gradd C. Mae 38.3 gradd C neu uwch yn achos pryder.	Dim yn gymwys	Hyd nes y bo'r gwres yn normal unwaith eto.
Edeulyngyr	Edeulyngyr yn bresennol mewn carthion (darnau gwyn, fel cotwm) pen-ôl coslyd, diffyg cwsg, diffyg archwaeth	Cyswllt uniongyrchol	24 awr yn dilyn y driniaeth
Llindag	Ardaloedd gwyn y tu mewn i'r geg, brech goch o gwmpas y geg neu'r ardal genhedlol	Cyswllt uniongyrchol	Y geg - 24 awr wedi'r driniaeth. Ardal genhedlol - dim angen allgau, er bod triniaeth a glanweithdra o safon uchel yn ofynnol.
Llid y tonsiliau	Gwddf dolurus iawn, smotiau gwyn ar y tonsiliau, chwarennau chwyddedig yn y gwddf, cur a phoen yn y cefn ac aelodau'r corff	2-5 niwrnod	Hyd nes y ceir adferiad, neu o leiaf 48 awr ar wrthfiotigau
Heintiau'r llwybr wrinol	Salwch cyffredinol, poen yn yr abdomen, cyfogi, gwres uchel, yr angen i basio dŵr yn amlach nag arfer	Dim yn gymwys	Hyd nes y bo'r symptomau wedi clirio

Gwybodaeth/arweiniad pellach:

- Arweiniad ar reoli haint mewn ysgolion a lleoliadau Gofal Plant eraill, yr asiantaeth amddiffyn iechyd, Health Protection Agency, Ebrill 2017 http://www.publichealth.hscni.net/publications/guidance-infection-control-schools-and-other-childcare-settings-0
- Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch http://www.hse.gov.uk/
- Canllawiau Bwyd ac Iechyd ar gyfer Lleoliadau'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Llywodraeth Cymru, 2018. https://beta.gov.wales/food-and-nutrition-childcare-settings-food-hygiene-and-safety